# EUR(2)04-03(min)

# Pwyllgor Materion Ewropeaidd Ac Allanol

## Cofnodion

**Dyddiad:** 4 Rhagfyr 2003

**Amser:** 09.00

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd

**Yn bresennol:**

***Aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol:***

| | |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Llafur: Delyn |
| Nick Bourne | Ceidwadwr: Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Llafur: Gorllewin Casnewydd |
| Christine Chapman | Llafur: Cwm Cynon |
| Mike German | Democrat Rhyddfrydol: Dwyrain De Cymru |
| Christine Gwyther | Llafur: Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Ieuan Wyn Jones | Plaid Cymru: Ynys Môn |
| Rhodri Morgan | Llafur: Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Plaid Cymru: Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

**Gwahoddedigion Sefydlog**

| | |
|---|---|
| Janet Royall | Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru |
| Janet Davies AC | Pwyllgor y Rhanbarthau |

**Gwahoddedigion**

| | |
|---|---|
| EA Llysgennad Dáithí O Ceallaigh | Llysgennad Iwerddon i'r DU |
| Jim Carroll | Conswl Cyffredinol Iwerddon yng Nghymru |
| **Swyddogion** | |
| Gary Davies | Pennaeth, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Pennaeth, Swyddfa Brwsel, Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| **Yr Ysgrifenyddiaeth** | |
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1 - Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau buddiant (09:00)

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Jonathan Morgan AC sy'n aelod o'r pwyllgor, a'r gwahoddedigion sefydlog Jonathan Evans, ASE, Glenys Kinnock ASE. Eluned Morgan ASE a Rose D'Sa.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau i Reol Sefydlog 15 gael ei diwygio ar 19 Tachwedd a bod dirprwyon yn cael eu caniatáu bellach ar y pwyllgor hwn.

1.3 Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## Eitem 2 - Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy'n codi (09:00 - 09:05)

Papurau:

EUR(2)03-03(min)

EUR(2)04-03(p01) - Fideogynadledda Cyfarfodydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

2.1 Cafwyd trafodaeth ar eiriad eitem 5 yn y cofnodion ond cytunwyd arnynt heb eu newid.

2.2 Ategodd yr aelodau yr argymhellion yn y papur ar fideogynadledda, hynny yw na fyddai'n gosteffeithiol gosod cyfleusterau fideogynadledda yn yr ystafelloedd pwyllgora presennol; ac y dylid gofyn i Bwyllgor y Ty edrych a fyddai cyfleusterau adeilad newydd y Cynulliad wedi'u cymhathu'n

ddigonol â'r systemau darlledu.

## Pwynt Gweithredu:

- Gofyn i Bwyllgor y Ty edrych a fydd y cyfleusterau fideogynadledda yn adeilad newydd y Cynulliad wedi'u cymhathu'n ddigonol â'r systemau darlledu.

## Eitem 3 - Adroddiad y Gweinidog (09:05 - 09:20)

Papur: EUR(2) 04-03(p02) - Adroddiad y Gweinidog

3.1 Roedd gan y Prif Weinidog rai pethau i'w hychwanegu at ei adroddiad ysgrifenedig:

- Alun Pugh AC, Gweinidog Diwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, arweiniodd dirprwyaeth y DU ar Gyngor Diwylliant yr UE ar 24 Tachwedd. Daw manteision mawr o gael Gweinidogion gweinyddiaethau datganoledig i arwain dirprwyaethau. Bydd y Gweinidog yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Diwylliant ar gyfarfod y Cyngor cyn hir.
- Roedd ymweliad Gweinidog-Lywydd Baden-Württemberg yn arwyddocaol. Dechreuodd y berthynas glos â'r rhanbarth yn ystod y Confensiwn ar Ddyfodol Ewrop lle cafodd y papur ar y cyd a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru argraff ddofn. Mae camau ar droed i adolygu'r memorandwm cyd-ddealltwriaeth rhwng Cymru a Baden-Württemberg. Cafodd ei lunio cyn dyddiau datganoli a rhagwelir canlyniad cadarnhaol.
- Ymunodd y Pwyllgor â'r Prif Weinidog i longyfarch Glyndwr Collings ar gael Medal Rhyddid y Pilipinas fel cydnabyddiaeth o'i wasanaeth yn yr Ail Ryfel Byd. Yn ystod ymweliad Llysgennad y Pilipinas, cyfarfu â Jane Hutt, AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, i drafod lles gweithwyr iechyd o'r Pilipinas sy'n gweithio yng Nghymru. Bu hefyd yn trafod cysylltiadau masnachol mewn cyfarfod â'r Prif Weinidog.
- Cafwyd canlyniad gwell i Gymru yn y gêm bêl-droed gyfeillgar rhwng Llysgenhadaeth Rwsia a Llywodraeth y Cynulliad nag a gafwyd yn y gêm fawr yn Stadiwm y Mileniwm. Cyfarfu'r Prif Weinidog â Llysgennad Rwsia a bydd y Llysgennad yn dychwelyd ymhen pythefnos pan gynhelir cyfarfod arall i drafod materion masnachol.
- Cyfarfu Cyd-Bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop ddydd Llun a chlywyd am y datblygiadau diweddaraf yn y Gynhadledd Rynglywodraethol. Cafwyd cytundeb ar lawer o'r pynciau dadleuol yng nghyfarfod y Gweinidogion yn Naples ar 28-29 Tachwedd. Mae rhai materion yn dal yn destun trafod ac mae'n rhy fuan dweud eto beth ddaw o'r rheini.
- Bydd gan ddyfarniad diweddar gan Lys Cyfiawnder Ewrop oblygiadau i gyfarwyddeb oriau gwaith yr CE. Mae'r dyfarniad yn golygu bod yr amser a dreulir gan weithwyr yn cysgu tra'u bod ar alwad yn cael ei gyfrif fel amser gweithio. Bydd hyn yn arwain at broblemau anferth i wasanaethau brys. Bydd gofyn cymryd camau yn hyn o beth rhag gwneud y gyfarwyddeb yn anymarferol.
- Mae'r Gwyddelod yn awyddus i hyrwyddo'u harweiniad yn yr ymgyrch i wahardd smygu a bydd yn ddiddorol gweld sut bydd y gwaharddiad ar smygu mewn mannau cyhoeddus yn gweithio.

Daw'r ddeddf i rym yn Iwerddon ar 1 Chwefror 2004 ac os bydd pobl yn gweld ei fod yn gweithio, fe allai gael effaith ar wledydd eraill yr UE.

- Cadeiriodd y Prif Weinidog gyfarfod o'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig, hynny gan fod Cymru'n gymaint o geffyl blaen ym maes ieithoedd lleiafrifol. Yn y cyfarfod, trafodwyd rhannu'r arferion gorau yn yr Ewrop ehangach a gwelodd y Prif Weinidog fod cymhariaeth rhwng profiadau Cymru a phrofiadau llawer o'r darpar-aelodau.

## Eitem 4 - Cyflwyniad gan Gadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (09:20 - 09:42)

4.1 Esboniodd Christine Gwyther AC, Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth fod y Pwyllgor yn bwriadu ystyried materion Ewropeaidd ac allanol fel rhan o'i waith. Dywedodd fod nifer o ddatblygiadau wedi bod ers adroddiad cyntaf y Pwyllgor ym mis Mehefin 2002. Mae effaith yr UE ar faterion sy'n ymwneud â datblygu economaidd yn anferthol ond mae llawer o'r materion hynny'n rhai heb eu datganoli, er enghraifft diddymu rhwystrau masnachu, iechyd a diogelwch ac oriau gwaith.

4.2 Y pwnc mwyaf perthnasol i Ddatblygu Economaidd yw cronfeydd strwythurol. Mae'r Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod yr arian yn cael ei wario mor effeithiol ac effeithlon â phosibl. Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn cyhoeddi adroddiad chwarterol rheolaidd ac mae Cadeiryddion Pwyllgorau Monitro'r Rhaglen yn cael adrodd yn syth i'r Pwyllgor DatEcon. Croesewir y ffaith bod swyddogaethau WEFO'n cael eu trosglwyddo i'r Cynulliad ond mae'r Pwyllgor DatEcon yn awyddus i fonitro bod hyn o les i raglenni. Roedd yna bryderon y gellid colli arian Amcan 2, hynny am i ansefydlogrwydd y gyfradd gyfnewid rhwng y bunt a'r ewro olygu y cafodd Cymru fwy o arian na'r disgwyl. Nodwyd y gallai fod yn anodd cael partneriaid trawsffiniol i gyflwyno'u ceisiadau i'r rhaglen Interreg mewn pryd. Canmolwyd WEFO gan Christine Gwyther am weithio mor galed i gael ceisiadau i mewn yn brydlon.

4.3 Mae'r Pwyllgor DatEcon wedi ystyried adolygiad canol tymor Amcan 1 ac roedd yn falch bod y Comisiwn Ewropeaidd wedi croesawu'r syniad o ariannu cynlluniau i wella ac adfywio canol trefi.

4.4 Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor DatEcon y byddai'r Pwyllgor yn ystyried y trydydd adroddiad ar gydlyniant a gyhoeddir ddiwedd mis Ionawr. Sbardunodd hyn drafodaeth ymhlith aelodau'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol am ddyfodol cronfeydd strwythurol. Mae'r adroddiad ar gydlyniant, meddai'r Prif Weinidog, yn dyngedfennol gan y byddai'n dangos a fyddai'r cymorth y bydd yr UE yn ei roi i'r rhanbarthau a fydd yn colli statws amcan 1 wedi'r ehangu yn debyg i'r cymorth trosiannol a roddwyd yng nghylch 2000-2006 i ardaloedd, fel Dwyrain Iwerddon, a gollodd statws Amcan 1 bryd hynny. Mae Cymru wedi'i gwneud yn glir na fyddai unrhyw beth llai na 50 y cant o'r cymorth yn rhesymol.

4.5 Dywedodd y Prif Weinidog bod cyfarfodydd wedi'u cynnal rhwng y Comisiynydd Barnier a Patricia Hewitt a Gordon Brown ar gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer 'ailwladoli' cymorth rhanbarthol, a dywedodd y caiff gyfle i gwrdd â Patricia Hewitt ei hun yng Nghinio Blynyddol CBI Cymru y diwrnod

canlynol. Roedd y Prif Weinidog wedi mynychu seminar hefyd gyda chynrychiolwyr Länder a Llywodraeth Ffederal yr Almaen yn 11 Downing Street yr wythnos flaenorol. Roedd cynrychiolwyr y Länder yn eiddigeddus o'r gwarant a roddwyd gan Lywodraeth y DU yn ei chynigion ar gyfer dyfodol Cronfeydd Strwythurol. Nid yw'r Llywodraeth Ffederal wedi rhoi addewid o'r fath iddyn nhw. Mae nifer o ffactorau'n effeithio ar deimladau'r Almaenwyr am bolisi rhanbarthol yr UE a gallent eu sbarduno yn y dyfodol i roi mwy o gefnogaeth i gynigion Llywodraeth y DU. Mae economi'r Almaen yn wynebu anawsterau ac mae'r llywodraeth ffederal am gael mwy o bwerau i allu bwrw ymlaen â nifer o ddiwygiadau. Mae cynrychiolwyr y Länder yn y ty uchaf wrthi'n blocio sawl agwedd ar y rhaglen ddiwygio hon ac mae yna bwysau i leihau pwerau'r rhanbarthau. Y teimlad ymhlith y rhanbarthau yw nad yw'r fformwla ariannu bresennol yn rhoi digon o sbardun i ranbarthau tlotach i wneud eu hunain yn gyfoethocach.

4.6 Nododd y Prif Weinidog hefyd nad yw natur gwarant Llywodraeth y DU ar yr arian gaiff ei 'ailwladoli' yn hollol glir chwaith ac mae angen gwybod i ba fath o gynlluniau y byddai Llywodraeth y DU yn barod i roi arian cyfatebol. Y gobaith yw y bydd cyhoeddi dogfen y Comisiwn Ewropeaidd ar berspectifau ariannol, ychydig cyn y trydydd adroddiad ar gydlyniant, yn cryfhau cynnig y DU. Fodd bynnag, bydd y trafodaethau ar lefel adnoddau'r UE ar gyfer ariannu Cronfeydd Strwythurol yn parhau tan 2005 o leiaf.

4.7 Bydd y Pwyllgor DatEcon yn edrych ar y rheolau ar gymorth gwladol a rôl yr UE o safbwynt cyfyngu ar y cymorth i fusnesau, ac i fusnesau bach yn enwedig. Mae cymhorthion gweithredu yn neilltuol o bwysig, fel ag y mae'r gallu i fod yn hyblyg wrth roi cymorth.

4.8 Bydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ystyried y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd (TEN) trwy Gymru. Mae goblygiadau'r cynlluniau i godi ar gerbydau trwm eisoes wedi'u trafod ym Mhwyllgor y Rhanbarthau a gallent gael effaith fawr ar Gymru.

4.9 O ran y cyfathrebu rhwng y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol a'r Pwyllgor DatEcon, mae yna ar hyn o bryd ddau aelod llawn yn aelodau o'r ddau, ac mae Janet Davies yn un o wahoddedigion sefydlog y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol. Roedd y Cadeirydd yn teimlo bod yr adborth i'r Pwyllgor DatEcon yn foddhaol ac nad oes angen trefniadau adrodd mwy ffurfiol, ond byddai'n barod i ystyried cysylltiadau mwy ffurfiol pe gwelid budd yn hynny. Croesawyd yr ymdrechion i roi mwy o wybodaeth i'r Pwyllgor DatEcon am y ddeddfwriaeth Ewropeaidd sydd yn yr arfaeth.

4.10 Mewn trafodaeth, nodwyd y gallai'r Pwyllgor DatEcon a'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ystyried edrych ar faterion yn ymwneud â'r economi anffurfiol ac anweithgarwch economaidd. Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol y gallai'r Ysgrifenyddiaeth edrych sut y gallai'r ddau bwyllgor ystyried y pynciau hyn ar y cyd.

## Pwynt Gweithredu:

- Cytunodd y Prif Weinidog i roi mwy o wybodaeth am warant Llywodraeth y DU ar Gronfeydd

Strwythurol cyn gynted ag y câi yntau mwy o wybodaeth amdano.
- Byddai Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor yn edrych i'r posibilrwydd o alw cyfarfod ar y cyd i ystyried materion yn ymwneud â'r economi anffurfiol.

## Eitem 5 - Craffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd (09:42 - 10:00)

Papurau:

EUR(2)04-03(p03) - Papur wedi'i ddiweddaru ynghylch craffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd

EUR(2) 04-03(p4) - List of European legislation

5.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur wedi'i ddiweddaru ynghylch craffu ar ddeddfwriaeth Ewropeaidd sy'n cynnwys cynigion i ddiwygio Rheol Sefydlog 15 i grisialu rôl y Pwyllgor, a rhestr o'r papurau diweddaraf am ddeddfwriaeth yr UE.

5.2 Ar ôl clywed barn cyfreithiwr, mae geiriad y diwygiad i baragraff 15.4 y Rheolau Sefydlog, yn Atodiad A papur 3, wedi'i newid fel ei fod yn hytrach na dweud y byddai'r Pwyllgor *"shall take a lead in the Assembly in considering the subsidiarity implications of proposed EU legislation"*, y byddai *"shall consider or arrange for the consideration of the subsidiarity implications of proposed EU legislation"*. Nodwyd y newid gan yr Aelodau a chytunwyd ar y newid i Reol Sefydlog 15.

5.3 Tynnwyd sylw'r Aelodau at waith Pwyllgor Cysylltiadau Ewropeaidd ac Allanol Senedd yr Alban ar graffu ar ddeddfwriaeth cyn ac ar ôl eu cyflwyno gerbron y Cyngor. Rhoddai ddarllun ddadlennol o ran bwysig o brosesau llunio polisïau a deddfwriaeth yr UE. Cafwyd gwybod bod Rheol Sefydlog 15.1 yn caniatau i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ddilyn yr un trywydd pe dymunai hynny. Caiff y cwestiwn o graffu ar ddeddfwriaeth yr UE ei drafod gan Gadeiryddion holl bwyllgorau craffu Ewropeaidd y DU mewn cyfarfod yn Aberdeen ar 12 Ionawr a chaiff y Pwyllgor wybod canlyniadau'r cyfarfod hwnnw.

5.4 Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnig i sefydlu is-bwyllgor Craffu ar Sybsidiariti. Bydd yn bodloni gofynion Cyfansoddiad yr UE o ran ystyried effeithiau cynigion yr UE ar sybsidiariti. Nid oes angen gwneud dim tan y daw'r Cyfansoddiad i fod. Nodwyd mai cylch gwaith gweddol gul a thechnegol fyddai i'r is-bwyllgor ac na fyddai'n cael ystyried materion polisi, ond cytunwyd y dylai gael argymell bod y Pwyllgor llawn, neu bwyllgor pwnc arall, yn ystyried mater polisi yn fanylach. Gwahoddwyd yr aelodau i gyflwyno'u sylwadau i Glerc y Pwyllgor ar y cynnig i sefydlu is-bwyllgor.

5.5 Roedd y Pwyllgor yn gwerthfwrogi'r rhestr o ddeddfwriaeth yr UE, a thrafodwyd ei chynnwys a sut y gellid ei gwella:

- Roedd rhestr Senedd yr Alban o ddeddfwriaeth yr UE yn cynnwys nodyn esboniadol am bob dogfen ar y rhestr, nid yn unig y rheini y mae'r Ysgrifenyddiaeth yn eu nodi fel rhai y dylid eu

hystyried ymhellach. Er i'r aelodau gyfaddef y byddai angen mwy o adnoddau i baratoi nodyn esboniadol am bob dogfen ar y rhestr lawn, fe fyddai hynny'n ddefnyddiol iddynt wrth ei hystyried.

- Yn ogystal â'r dogfennau y tynnwyd sylw'r Pwyllgor atynt fel rhai y dylai eu hystyried, tynnwyd sylw hefyd at ddogfen 14981/03 a osodwyd ar 21/11/03 (yn trafod Erthygl 7 ar werthoedd yr UE). Bydd Clerc y Pwyllgor yn rhoi mwy o wybodaeth i'r aelodau am y ddogfen maes o law.
- Cadarnhawyd y caiff dogfennau sydd o ddiddordeb i fwy nag un Pwyllgor eu hanfon at bob un o'r pwyllgorau hynny.
- Croesawyd y ffaith bod Clercod y Pwyllgorau ac Ymchwilwyr yn ystyried llunio rhestr wythnosol o ddeddfwriaeth Ewropeaidd a fyddai'n berthnasol i'w pwyllgorau ac maent yn awyddus i weld y canlyniadau yn y Pwyllgor. Nodwyd mai newydd gytuno ar y cynigion ar gyfer craffu ar ddeddfwriaeth yr UE y mae Panel y Cadeiryddion ac felly megis dechrau ar y gwaith hwnnw y mae'r Pwyllgorau. Cytunwyd y dylid gwerthuso'r broses ddiwedd tymor y Gwanwyn.
- I gau pen mwdwl rôl y Pwyllgor fel goruchwylydd y broses graffu, byddai'n ddefnyddiol pe gellid clywed adborth y Pwyllgorau eraill i'w waith craffu ar ddogfennau.

## Pwynt Gweithredu:

- Caiff y newidiadau i Reol Sefydlog 15 eu cyflwyno i'r Pwyllgor Busnes iddo eu hystyried.
- Bydd y Cadeirydd yn cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor ar ôl 12 Ionawr ar ganlyniad ei chyfarfod â Chadeiryddion yr holl bwyllgorau craffu Ewropeaidd eraill
- Bydd y Clerc yn rhoi mwy o wybodaeth i Michael German AC am ddogfen 14981/03 a osodwyd ar 21/11/03 sy'n ymdrin ag Erthygl 7
- Bydd yr aelodau yn cyflwyno eu sylwadau ar yr is-bwyllgor Craffu ar Sybsidiariti i Glerc y Pwyllgor
- Bydd Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau ac Ymchwilwyr yn ystyried sut orau i ymdrin ag adborth Aelodau i'r broses craffu ar ddeddfwriaeth.

## Eitem 6 - Asesu manteision aelodaeth o sawl corff Ewropeaidd a Rhyngwladol (10:00-10:18)

Papur: EUR(2) 04-03(p5) - Asesu manteision aelodaeth o sawl corff Ewropeaidd a Rhyngwladol

6.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynnig i asesu'n rheolaidd fanteision bod yn aelod o gyrff Ewropeaidd a rhyngwladol:

- Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn fwy na pharod i adrodd i'r Pwyllgor ar ymwneud Llywodraeth y Cynulliad â chyrff amrywiol. Ond mae'r cyrff a restrir yn wahanol i'w gilydd a byddai'n anodd felly cynnal asesiad cymharol. Llywodraeth y Cynulliad sy'n ymwneud â rhai

cyrff ond mater i'r Llywydd neu'r Cynulliad cyfan yw'r ymwneud â rhai eraill. Mater arall eto yw memoranda cyd-ddealltwriaeth.

- Cytunwyd mai'r bwriad yw edrych ar bob corff ar wahân i fesur ei effeithiolrwydd i gyflawni amcanion y Cynulliad yn hytrach na chymharu cyrff gwahanol. Mae'r Pwyllgor eisoes yn derbyn adroddiadau rheolaidd gan Lywodraeth y Cynulliad a'r Llywydd ar eu hymwneud â chyrff amrywiol. Amcan y cynnig yw gwneud hyn mewn ffordd fwy ffurfiol a strategol.
- Awgrymwyd mai'r bwriad y tu ôl i'r cynnig yw cael y Pwyllgor i benderfynu a yw bod yn aelod o gorff penodol yn dod â manteision i'r Cynulliad. Cytunwyd y byddai'r Pwyllgor yn rhoi adroddiad ar ei gasgliadau i'r awdurdod gweithredol, sef naill ai Llywodraeth y Cynulliad neu'r Cyfarfod Llawn gan ddibynnu ar natur y corff. Ond nodwyd hefyd y byddai'n fwy tebygol o wneud argymhellion i'r awdurdod dan sylw eu hystyried.
- Croesewir adroddiadau Cymdeithas Seneddol y Gymanwlad.
- Yng nghyd-destun ei waith ar faterion allanol, dylai'r Pwyllgor ystyried hefyd sut mae'r Cynulliad yn gweithio gyda'r Cyngor Prydeinig. Roedd grwp trawsbleidiol wedi cwrdd â'r Cyngor Prydeinig yr wythnos honno a chawsant eu taro gan yr amrywiaeth o weithgareddau y mae'n eu cynnal. Yn ogystal ag esbonio'i waith wrth y Pwyllgor, byddai'n ddefnyddiol gwahodd y Cyngor Prydeinig i roi cyflwyniad anffurfiol i'r Cynulliad cyfan.
- Nodwyd y ffaith bod NORPEC (Rhwydwaith Pwyllgorau Seneddau Rhanbarthol Ewrop) wedi'i sefydlu gan bwyllgorau craffu Ewropeaidd Seneddau yr Alban a Chatalunya. Nid yw NORPEC yn chwilio am aelodau newydd, ond bydd yn cynnal cynhadledd yng Ngwanwyn 2004 a bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gynlluniau NORPEC at y dyfodol ar ôl cyfarfod Cadeiryddion Pwyllgorau Craffu Ewropeaidd y DU yn Aberdeen ym mis Ionawr.

6.2 Cytunwyd bod angen esboniad manylach o'r papur a chaiff fersiwn newydd ei rhoi ger bron y Pwyllgor iddo ei hystyried yn y cyfarfod nesaf.

## Pwynt Gweithredu:

- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn trefnu bod y Cyngor Prydeinig yn rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol
- Bydd Rosemary Butler AC yn parhau i ystyried y posibilrwydd o drefnu bod y Cyngor Prydeinig yn rhoi cyflwyniad i'r Cynulliad cyfan
- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn ail-ysgrifennu'r papur i esbonio amcanion, nodau a phrosesau asesiad y Pwyllgor o aelodaeth y Cynulliad o gyrff Ewropeaidd a rhyngwladol, ac i ddisgrifio natur perthynas y Cynulliad â phob un

## Eitem 7 - Adroddiad ar Raglen Waith Flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd (10:18 -10:38)

Papur: EUR(2) 04-03(p6) - Dadansoddiad o raglen waith y Comisiwn ar gyfer y flwyddyn

7.1 Dygwyd yr eitem hon ymlaen o eitem 8.

7.2 Dywedodd Des Clifford, Pennaeth Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel, bod rhaglen waith y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer 2004 yn fyrrach nag arfer, hynny oherwydd ehangu'r Undeb, etholiadau i Senedd Ewrop ac ethol Comisiwn Ewropeaidd newydd.

7.3 Cadarnhaodd Janet Royall o Swyddfa'r Comisiwn yng Nghymru y byddai yna 30 o gomisiynwyr rhwng Mai a Thachwedd, gyda phob un o'r deg aelod newydd yn cael comisiynydd yr un a'r rheini sydd â dau gomisiynydd ar hyn o bryd yn eu cadw tan y caiff y Comisiwn newydd ei ffurfio ym mis Tachwedd. Ym mis Tachwedd, pan gaiff y Comisiwn newydd ei benodi, bydd gan bob gwlad un comisiynydd yr un, sef 25 i gyd. Mae'n amhosibl dweud beth fydd yn digwydd ar ôl 2009.

7.4 Dyma agweddau pwysicaf y rhaglen:

- Cronfeydd Strwythurol - cyhoeddi persbectif ariannol drafft yr CE, y trydydd adroddiad ar gydlyniant a rheoliadau drafft ar gyfer rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006.
- Nifer fawr o gynigion amgylcheddol - bydd y Comisiwn yn deddfu mwy ar bolisi amgylcheddol nag unrhyw faes arall. Bydd rhai o'r cynigion yn dilyn ymlaen o 2003, er enghraifft y gyfarwyddeb dyfroedd ymdrochi a fydd yn effeithio ar Gymru, a hefyd cynigion 'REACH' - rheoliadau cemegol eang iawn eu cwmpas. Roedd pryder y gallai diwydiannau 'simneau mwg' Cymru ddioddef, ac na fyddai'r targedau ynghylch newid yr hinsawdd yn cael eu cyrraedd, pe bai rheoliadau llym yn gorfodi cwmnïau i symud i wledydd y tu allan i'r UE lle mae'r rheoliadau'n llacach.

7.5 Tri 'phen' pregeth y Comisiwn ar hyn o bryd yw ehangu, sefydlogrwydd a thwf. O safbwynt sefydlogrwydd, mae'r Comisiwn yn edrych ar ei berthynas â'i gymdogion newydd wedi ymestyn ffiniau'r UE. Bydd hyn yn effeithio'n fawr ar Gymru. Bydd y Comisiwn yn cadw llygad ar y darlun ehangach.

7.6 Mae iechyd, gan gynnwys iechyd yr henoed, a mewnfudo yn ddau faes sy'n cynyddu yn eu pwysigrwydd yn rhaglen waith y Comisiwn. Mae gan y Comisiwn bwerau ym maes iechyd y cyhoedd, o ran cydlynu a chydgysylltu gwasanaethau iechyd cyhoeddus mewn aelod-wladwriaethau gwahanol. Ym maes iechyd, nodwyd bod ymchwil i fôn-gelloedd yn bwnc amserol - disgwylir y bydd Llywodraeth y DU yn gwrthwynebu unrhyw ymgais i gyfyngu ar ymchwil i fôn-gelloedd. Mae ambell wlad am geisio ei rheoli am resymau crefyddol.

7.7 Mae Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel yn fwy abl bellach i roi gwybodaeth i aelodau unigol a Phwyllgorau'r Cynulliad am elfennau'r rhaglen waith erbyn hyn. Gofynnwyd am oblygiadau'r holl gynigion amgylcheddol, gan gynnwys REACH. Cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol trafod cynigion REACH gydag arbenigwr o'r Comisiwn. Mae'r holl gynigion amgylcheddol yn berthnasol i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a chytunwyd y dylid gofyn i Gadeiryddion y Pwyllgorau hyn i'w hystyried ar y cyd ac i gyflwyno adroddiad ar eu trafodaethau.

7.8 Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am nodyn ar ymateb gwahanol wledydd i'r rheoliadau ar reoli tybaco a sut y maent yn eu gweithredu.

7.9 Byddai'n ddefnyddiol cael manylion diweddaraf statws cynigion yr UE yn y rhaglen waith, a sicrhau bod Cadeiryddion yr holl Bwyllgorau yn derbyn copi o'r rhaglen waith fel eu bod yn cael cyfle i fwydo'u hymateb i Lywodraeth y DU.

## Pwyntiau gweithredu:

- Bydd y Pwyllgor yn cael papur ar oblygiadau'r cynigion amgylcheddol yn rhaglen waith flynyddol y Comisiwn i Gymru. Y bwriad yw rhoi'r papur i Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth iddynt ei ystyried ar y cyd. Gofynnir i'r Pwyllgorau hyn baratoi adroddiad ar eu hymateb i'w roi i'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol.
- Bydd y Pwyllgor yn cael papur ar farn gwledydd eraill yr UE ar y rheoliadau ar reoli tybaco.
- Bydd rhaglen waith flynyddol y Comisiwn yn cael ei hanfon at Gadeiryddion yr holl Bwyllgorau.
- Bydd y Pwyllgor yn derbyn manylion hynt rhaglen waith flynyddol y Comisiwn.

Egwyl: 10:38 - 11:00

## Eitem 8 - Blaenoriaethau Llywyddiaeth Iwerddon a'r gweithgareddau hyd yn hyn (11:00 - 11:45)

8.1 Clywodd y Pwyllgor gyflwyniad am flaenoriaethau llywyddiaeth Iwerddon gan Dáithí O Ceallaigh, Llysgennad Iwerddon yn y Deyrnas Unedig. Ni fydd rhaglen Llywyddiaeth Iwerddon ar gael yn derfynol tan yr wythnos ddilynol gan fod y trafodaethau yn yr IGC yn parhau. Fel ag y tro diwethaf y bu'n Llywydd, mae Iwerddon am feithrin ymdeimlad o degwch ac effeithiolrwydd, a chael hyd i atebion ymarferol. Mae hi wedi llunio rhaglen 12 mis ar y cyd â'r Iseldiroedd a fydd yn llywydd ar ei hôl, a rhaglen strategol tair blynedd gyda gwledydd y chwe llywyddiaeth nesaf. Mae'n bwysig sicrhau dilyniant a pharhad, ond heb aberthu blaengarwch. Croesawodd y Pwyllgor yr ymgais hon i ddod ag elfen o barhad i raglen yr UE.

8.2 Gwnaeth y Llysgennad enwi pum maes y mae'r Gwyddelod am roi blaenoriaeth iddynt:

- **Ehangu:** Mae'n hynod bwysig rhoi cymaint o help â phosibl i'r aelodau newydd, i'w cymhathu'n llawn er mwyn iddynt allu gweithredu holl bolisïau'r Undeb yn effeithiol, gan gynnwys, er enghraifft, agenda Lisbon, Acquis Schengen a'r Cytundeb ar Sefydlogrwydd a Thwf. Mae'r ffaith bod Cyprus yn dod yn aelod yn gyfle gwych i ddatrys problemau'r ynys gan ddefnyddio argymhellion Ysgrifennydd Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn sail iddo. Bydd yn bwysig hefyd helpu Bwlgaria a Rwmania i ddod yn aelodau a Thwrci yn yr un modd.
- **Y Gynhadledd Rynglywodraethol:** Mae Iwerddon yn dal yn obeithiol y gwnaiff llywyddiaeth yr Eidal ddod â'r trafodaethau yn Naples i ben yn llwyddiannus cyn cyfarfod y Cyngor ym

Mrwsel. Mae camau breision wedi'u cymryd. Os na, gwnaiff Iwerddon bopeth yn ei gallu i unioni unrhyw anghytundeb yn ystod ei llywyddiaeth hi. Yr amcan yw cytuno ar strwythur i'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn ei gwneud yn agored i'w holl ddinasyddion, a hynny mewn da bryd cyn etholiadau mis Mehefin. Fel rhai o wledydd eraill yr UE, mae Iwerddon am weld cyfeiriad at Dduw yn y Cyfansoddiad, ond nid yw'n fater o 'fyw neu farw' ac fe fydd Iwerddon yn y pen draw yn barod i ymuno â chonsensws.

- **Agenda Lisbon:** Gellid bod wedi mynd â phethau ymhellach erbyn hyn, a chaiff cyfarfod arbennig o'r Cyngor ei gynnal ym mis Mawrth i edrych ar bedwar maes: twf, y gallu i gystadlu, cyflogaeth a'r amgylchedd gan gynnwys technolegau amgylcheddol. Bydd y Llywyddiaeth yn delio hefyd â chynigion ar amaethyddiaeth, pysgodfeydd, iechyd a diwylliant.
- **Cyfiawnder a Materion Cartref:** Ar sail cynigion Amsterdam a Tampere, mae yna gyfres o bynciau anodd y mae angen ymdrin â nhw. Bydd Iwerddon am wneud y polisïau ar loches a mewnfudo yn fwy effeithiol ac effeithlon, yn enwedig o ran gweithdrefnau a rheolaeth, a diogelu hawliau ceiswyr lloches o dan Gonfensiwn Genefa. Bydd yn milwrio yn erbyn mewnfudo anghyfreithlon, gan gynnwys y traffig rhyngwladol mewn pobl ynghyd â materion yn ymwneud â'r gyfraith ymfudo. Ymfudodd 50,000 o bobl i Iwerddon llynedd. Caiff cynhadledd ei chynnal yn ystod ei Llywyddiaeth ar gynhwysiant cymdeithasol a mewnfudwyr - roedd gan Iwerddon hanes hir o allfudo ac mae am weld mewnfudwyr yn cael eu cymhathu'n gymdeithasol o fewn cymunedau. O safbwynt cydweithrediad rhwng heddluoedd a throseddu, bydd Iwerddon yn gweithio i ymladd yn erbyn gangiau troseddwyr rhyngwladol, cyffuriau a therfysgaeth ryngwladol. Bydd cynhadledd yn Nulyn ym mis Mai yn pwyso a mesur y rhaglen ddiwethaf ar gyffuriau. Bydd gwaith yn cael ei wneud hefyd i hybu cydweithrediad ar dollau.
- **Rôl Ewrop yn y byd ehangach:** Mae yna lawer o gydweithredu dwyffordd â chyrff fel y Cenhedloedd Unedig a'r OSCE a dylai hynny barhau. Roedd proses heddwch y Dwyrain Canol yn flaenoriaeth - mae'r UE ac UDA wedi ymrwymo i'r 'Map Ffyrdd'. Bydd Iwerddon hefyd yn helpu ymdrechion y DU, yr Almaen a Ffrainc yn Iran i ffrwyno twf arfogaeth niwclear. Bydd am wella'r berthynas ag UDA a Chanada - mae cynhadledd wedi'i threfnu ar gyfer rhan ola'r llywyddiaeth i drafod pynciau fel masnach, arfau distryw mawr a therfysgaeth. Mae cynhadledd â Rwsia hefyd yn yr arfaeth - mae'r UE yn gweithio'n galed i feithrin cysylltiadau â'i gymdogion yn Nwyrain Ewrop gan gynnwys Rwsia.

8.3 Croesawodd y Pwyllgor y pwyslais ar hybu agenda Lisbon ac roedd Cymru am chwarae ei rhan ynddi. Diffyg twf yn economïau rhai o'r Aelod-Wladwriaethau sy'n rhannol gyfrifol am ddiffyg cynnydd yn hyn o beth. Roedd cydnabyddiaeth y bydd y Rhwydwaith Traws-Ewropeaidd yn rhoi hwb bwysig i economïau a byddai Iwerddon yn ceisio helpu i annog cytundeb ar flaenoriaethau'r Rhwydwaith. Bydd yn rhoi ei sylw hefyd ar harmoneiddio, gan gynnwys yn y sector rheilffyrdd, gan annog pobl i ddefnyddio dulliau cludiant heblaw'r ffyrdd lle bo hynny'n ymarferol, a meithrin hyder y cyhoedd yn y system trwy ganolbwyntio ar faterion diogelwch. Roedd Iwerddon am annog yr UE i ddatblygu gallu strategol ei loerennau a byddai'n cefnogi cynllun Gallileo. O safbwynt materion morol, mae Iwerddon am leihau llygredd y môr ac edrych ar y posibilrwydd o symud at system o sancsiynau, yn ogystal a hybu mesurau eraill i wneud y môr yn fwy diogel i longau a theithwyr. Mae am weld mwy o fordwyo yn yr UE a datblygu cysylltiadau â gwledydd mordwyol eraill. Mae'r TEN yn ymwneud yn bennaf â chludiant ar y tir ond byddai Iwerddon yn barod i edrych ar deithio yn yr awyr os gwelir bod galw -

cydnabyddir bod galw rheolaidd ar lywodraethau i wella'r cysylltiadau awyr â rhanbarthau ymylol.

8.4 O ran gwella'r gallu i gystadlu, y flaenoriaeth yn agenda Lisbon yw symbylu entrepreneuriaeth a datblygu busnesau a mentrau newydd. Bydd Iwerddon yn edrych ar y fframwaith o reoliadau ac yn cefnogi strategaeth integredig i hybu'r gallu i gystadlu. Y ffaith bod ganddi fframwaith cymharol ysgafn o reoliadau o'i gymharu â gwledydd eraill sydd i raddau i gyfrif am lwyddiant Iwerddon o ran mewnfuddsoddi ac allfuddsoddi. O safbwynt y set newydd o reoliadau cemegol, cydnabu'r Llysgennad ei bod yn bwysig cadw'r ddysgl yn wastad rhwng ffactorau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol.

8.5 Mae Iwerddon am roi blaenoriaeth i fuddsoddi mewn ymchwil yn yr UE, gyda tharged o 3 y cant o'r GDP erbyn 2010. I'r perwyl hwn, mae'n cefnogi lefelau agored, ysgafn ac ymarferol o gydweithredu.

8.6 Bydd yn gweithio'n galed i wireddu'r farchnad fewnol ond mae yna lawer o rwystrau eto i'w trechu. Meysydd eraill o dan 'cystadlu' y bydd gofyn eu hystyried fydd safonau archwilio a llywodraethu corfforaethol, diogelu'r defnyddiwr, patentau cymunedol, cydnabod cymwysterau proffesiynol, deddfwriaeth ar uno cwmnïau, trethi uniongyrchol ac anuniongyrchol a rheoleiddio TAW a thollau tramor.

8.7 Cytunwyd bod yn rhaid i Dwrci gydymffurfio â normau hawliau dynol, normau rhyddid economaidd a dilysrwydd sefydliadau gwleidyddol cyn y câi ymaelodi â'r Undeb, ond mae Iwerddon wedi'i chalonogi gan ymdrechion diweddar, yn enwedig rhai'r Llywodraeth bresennol.

8.8 Yng nghyfarfod blaenorol y Pwyllgor, roedd Oxfam wedi codi cwestiwn cyfraniad cyrff anllywodraethol a sicrhau'r cyfle iddynt ymgynghori ar faterion Ewropeaidd. Esboniodd y Llysgennad fod gan Iwerddon draddodiad hir o hybu cyfranogaeth cyrff anllywodraethol - bob tair blynedd, llunnir cynllun partneriaeth i annog cydweithrediad ag undebau llafur, cyflogwyr a chyrff anllywodraethol ac maent wedi bod yn llwyddiannus iawn. Nid oedd yn glir a oedd yna gynlluniau penodol i fynd i'r afael â hyn ar lefel Ewropeaidd.

8.9 Cafodd y Pwyllgor gyfle i drafod nawdd i ieithoedd lleiafrifol gyda'r Llysgennad. Nid oedd gan y llywyddiaeth gynlluniau penodol ar y mater hwn fel rhan o'i rhaglen, ond bu'n weithgar yn hyn o beth trwy'r Biwro Ieithoedd Lleiafrifol a'r Cyngor Prydeinig-Gwyddelig. Mae'n debyg y caiff ieithoedd lleiafrifol eu trafod fel rhan o'r drafodaeth ar strategaeth ddiwylliannol y Comisiwn ar ôl 2006 ac wrth adolygu'r gyfeireb teledu heb ffiniau; bydd y ddwy drafodaeth yn dechrau yn ystod y llywyddiaeth.

8.10 Gofynnwyd i'r Llysgennad pa bynciau fyddai anoddaf eu datrys yn y Gynhadledd Rynglywodraethol. Esboniodd bod gan bob gwlad ei phynciau ei hun na fyddent yn barod i ildio arnynt. Fodd bynnag, ymddengys mai gofynion Sbaen a Gwlad Pwyl ar hawliau pleidleisio oedd yr anoddaf i'w datrys, gyda'r ddwy wlad yn gwrthod ildio'r ddêl bleidleisio ffafriol a gawsant yn Nice. Mae'r pynciau nad yw Iwerddon yn bodlon ildio arnyn nhw yn debyg i rai'r DU - trethi, QMV ac amddiffyn. Mae Llywyddiaeth yr Eidal wedi rhoi cynigion ar amddiffyn ger bron sy'n mynd ymhell at leddfu gofidiau'r DU ac Iwerddon, ond mae dal angen trafod y manylion.

8.11 Gofynnwyd i'r Llysgennad am hynt y trafodaethau am y cronfeydd strwythurol ar ôl 2006. Dywedodd y Llysgennad bod y Comisiwn am roi'r un lefel o gymorth i'r gwledydd newydd ag yr oedd Iwerddon wedi elwa arno yn y gorffennol. Bu'r rhaglen o fudd mawr i Iwerddon a bydd Iwerddon cyn hir yn gyfrannwr net i goffrau'r UE. Nododd hefyd y bydd y drafodaeth am ddyfodol polisi rhanbarthol yn debygol o fod yn un hir ac anodd.

## Eitem 9 - Y diweddaraf gan aelodau Pwyllgor y Rhanbarthau a'r ASEau (11:45 - 12:00)

9.1 Roedd Janet Davies AC wedi mynychu cyfarfod ar gydlyniant tiriogaethol y diwrnod cynt. Roedd DG Regio wedi dod i'r cyfarfod i ateb cwestiynau ond nid oedd wedi rhoi cyflwyniad. Arweiniodd hyn at ddiffyg eglurder ynghylch rhai materion, yn enwedig am na fu cyfle i ofyn cwestiynau atodol ac fe wnaeth y cyfieithiad beth o'r drafodaeth yn anodd ei dilyn. Dywedodd DG Regio y byddai'r pecyn ar gyfer y cyfnod wedi 2006 ar gael ym mis Ionawr a chaiff manylion pellach y cynigion ar gyfer polisi rhanbarthol yn y dyfodol eu cyhoeddi ym mis Mehefin neu Orffennaf. Roedd sylwadau cynrychiolydd y Comisiwn wedi esgor ar drafodaeth am ddyfodol rhaglen URBAN. Awgrymodd y byddai yna Amcan 1a ac Amcan 1b ac yr ymdrinnid â hwy mewn ffyrdd gwahanol. Awgrymwyd hefyd na fyddai'r ehangu yn effeithio dim ar yr ardaloedd gwledig sy'n derbyn Amcan 1.

9.2 Byddai codi ar gerbydau trwm am ddefnyddio'r ffyrdd yn destun trafod mawr ac er na fydd yn digwydd yn y dyfodol agos, mae angen gweithredu ar y mater nawr i wneud yn siwr ein bod yn delio ag e'n iawn.

9.3 Trafodwyd yr hyn a glywyd oedd safbwynt y Comisiwn ar bolisi cydlyniant mewn ardaloedd gwledig a'r posibilrwydd am drefniadau ar wahân trwy'r PAC. Cytunodd y Prif Weinidog i chwilio am esboniad ar y mater.

9.4 Roedd Rosemary Butler wedi cyflwyno Barn ar ymestyn y rhaglen Diwylliant 2000, a chafodd ei derbyn gan Bwyllgor y Rhanbarthau. O ganlyniad, cafodd wahoddiad i roi cyflwyniad mewn digwyddiad yn Graz, sef Prifddinas Diwylliant bresennol Ewrop, a rhannodd lwyfan gyda Phennaeth y Biwro Ieithoedd Lleiafrifol a ganodd glodydd Cymru am ei gwaith ym maes iaith a diwylliant. Dywedodd iddi weld yn ystod ei hymweliad y manteision all ddod o ennill statws Prifddinas Diwylliant ac er i Gaerdydd golli'r cyfle y tro hwn, roedd yn bwysig gwneud y gorau o'r cyfleoedd a ddaw o fod yn ganolfan diwylliant. Diolchodd i'r swyddogion am eu cymorth wrth baratoi'r Farn.

9.5 Cafodd fynd hefyd i Fforwm Chwaraeon yr UE yn Verona, lle cafodd Blwyddyn Ewropeaidd Addysg trwy Chwaraeon 2004 ei lansio. Roedd gweinidogion chwaraeon o bob cwr o Ewrop wedi'u gwahodd ac mae'n bwysig sicrhau bod Gweinidog Chwaraeon y Cynulliad yn cael ei wahodd i ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

9.6 Bu Denise Idris-Jones AC yn feirniad mewn cystadleuaeth caneuon mewn ieithoedd lleiafrifol yn

Friesland. Llongyfarchwyd yr ymgeisydd o Gymru, a ddaeth yn ail.

9.7 Yng nghyfarfod Pwyllgor y Rhanbarthau, cyfarfu Rosemary Butler â Marsial talaith Silesia a chynrychiolydd rhanbarth yng Ngogledd Sbaen i wneud ceisiadau am nawdd ar gyfer amgueddfeydd mwyngloddio. Cyfarfu hefyd â gwleidydd o Orllewin Sweden a oedd yn awyddus i feithrin cysylltiadau â Chymru. Cyfnewidir artistiaid flwyddyn nesaf fel cam cyntaf.

9.8 Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn 2004.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00pm